Casgliad 1940au

Fâs Las - Ivon Hitchens

"Rwy'n ceisio defnyddio nodiant o liwiau ac arlliwiau fel bod y dyluniad yn llifo o ochr i ochr, i fyny ac i lawr, ac i mewn ac allan.

Does dim diddordeb gen i mewn cynrychioli'r ffeithiau fel y cyfryw nes creu'r gerddoriaeth weledol hon." (Forty-five Paintings, Llundain: Oriel y Serpentine, 1989, t.21)

Yma, mae Ivon Hitchens yn esbonio sut mae'n creu symudiad rhythmig yn ei waith er mwyn ceisio gwau trem y gwyliwr ar draws y llun cyn ei dynnu i mewn. Roedd creu 'sain' weledol yn hollbwysig i Hitchens. Roedd yn paentio lluniau er mwyn 'gwrando' arnynt.

Fe'i ganed ym 1893 a bu'n hyfforddi o 1912 yn Ysgolion yr Academi Frenhinol. Roedd dylanwad Braque i'w weld yn ei waith cynnar. Roedd datblygu'r dechneg nodiannol yn bwysig i flynyddoedd canol ei yrfa, wedyn yn ei flynyddoedd diwethaf roedd yn cynhyrchu tirluniau lle roedd yn ceisio cyfleu naws lle yn hytrach na'i olwg. Bu farw ym mis Awst 1979.